

We only use cookies that are necessary for this site to function, and to provide you with the best experience. Learn more in our [Cookie Statement](#). By continuing to use this site, you consent to the use of cookies.

[Healthcare Inspectorate Wales / Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru](#)

Routine onsite assurance work to resume | Gwaith sicrwydd rheolaidd ar y safle yn ailddechrau

Having trouble viewing this email? [View it as a Web page](#).



Saesneg isod | [English below](#)

- [Gwaith sicrwydd rheolaidd ar y safle yn ailddechrau](#)
- [Routine onsite assurance work to resume](#)

Gwaith sicrwydd rheolaidd ar y safle yn ailddechrau

Annwyl ddarparwr,

Cynllun Strategol a Gweithredol AGIC ar gyfer 2021-22

Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i chi am y ffordd y mae eich staff wedi ymgysylltu â'n gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf drwy ein swyddogaeth pryderon a hysbysiadau, ac yn ystod gweithgareddau penodol fel gwiriadau ansawdd ac arolygiadau. O ganlyniad, rydym wedi gallu cyflawni ein rôl yn effeithiol yn ystod cyfnod anodd a rhoi adborth cyflym i chi ar feysydd perthnasol i gefnogi gwelliant.

Ailgydio mewn gweithgarwch sicrwydd rheolaidd ar y safle

Fel y gwyddoch, mae'r rhan fwyaf o'r gwaith sicrwydd rydym wedi ymgymryd ag ef ers dechrau pandemig COVID-19 wedi'i gynnal oddi ar y safle ond mae gweithgarwch ar y safle wedi parhau lle mae'n amlwg bod lefel uchel o risg i ddiogelwch cleifion na ellir ymchwilio iddi o bell. Rydym wedi bod yn adolygu'r sefyllfa hon yn barhaus a, gan fod amrywiaeth o ddangosyddion yn dangos bod pethau'n argoeli'n dda o ran y pwysau a welwyd yn sgil COVID-19, byddwn yn gostwng ein trothwy ar gyfer gweithgarwch ar y safle ac yn cyflwyno mwy o weithgarwch sicrwydd ar y safle i'n rhaglen waith o 26 Ebrill. Ein gobaith yw ailgydio yn ein rhaglen lawn o arolygiadau rheolaidd ar y safle o 1 Gorffennaf 2021. Wedi dweud hynny, rydym yn cynnal gwerthusiad llawn o'r dull Gwirio Ansawdd a ddefnyddiwyd gennym yn ystod y pandemig er mwyn i ni allu asesu ei effaith a'r posibilrwydd y gellir ei ddefnyddio

dros y tymor hwy fel rhan o'n harlwy o weithgarwch sicrwydd. Byddwn yn cysylltu â sampl o ddarparwyr ar wahân yngylch y dull Gwirio Ansawdd er mwyn sicrhau bod eich sylwadau yn cael eu bwydo i mewn i'r gwerthusiad.

Ein Strategaeth a'n Cynllun ar gyfer 2021-22 a thu hwnt

Erbyn hyn, mae AGIC wedi cyhoeddi ei [Chynllun Strategol a Gweithredol ar gyfer 2021-22](#) a hoffwn dynnu eich sylw at rai meysydd allweddol a all fod o ddiddordeb i chi, lle y bydd eich ymgysylltiad yn hanfodol i'r broses o gyflawni ein rôl a datblygu ein sefydliad.

Nododd mis Mawrth 2021 ddiwedd ein strategaeth tair blynedd, Gwneud Gwahaniaeth. Ryw'n falch iawn o'r cynnydd rydym wedi ei wneud fel sefydliad i gyflawni ein blaenoriaethau, a chaiff gwerthusiad llawn o'r cynnydd hwnnw ei gyhoeddi yn ein hadroddiad blynnyddol yn ddiweddarach eleni.

O ystyried y cyfnod digynsail hwn, rwyf wedi penderfynu rhyddhau cynllun strategol a gweithredol un flwyddyn er mwyn sicrhau bod y gwaith a wnawn yn cynnal ei ffocws ac yn parhau'n briodol ac yn gymesur wrth i wasanaethau barhau i ddelio â'r pandemig, a dechrau'r broses adfer. Bydd hyn yn ein galluogi i gynnal gwerthusiad priodol o'n gwaith dros y tair blynedd diwethaf a chynnal y lefel gywir o weithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid wrth bennu strategaeth tymor hwy o 2022. Mae eich barn ar y ffordd rydym wedi perfformio a sut y gallwn wella dros y blynnyddoedd i ddod yn bwysig iawn i mi, a byddaf yn cysylltu â chi'n fuan i drafod sut y gallwch fynd ati i fynegi'r farn honno.

Ar gyfer y flwyddyn i ddod, bydd ein blaenoriaethau yn aros yr un fath: sicrhau ein bod yn cael yr effaith fwyaf posibl; cymryd camau lle na chaiff safonau eu cyrraedd; bod yn fwy gweladwy; a datblygu ein pobl a'n sefydliad i wneud y gwaith gorau posibl.

Ein rhaglen waith

Bydd ein rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn yn seiliedig ar risg ac yn ceisio cefnogi ymateb gwasanaethau gofal iechyd i'r pandemig a'u trefniadau ar gyfer adfer ar ôl hynny. Byddwn yn parhau i adolygu'r sefyllfa ac yn defnyddio'r cymysgedd cywir o waith sicrwydd ar y safle ac oddi ar y safle i gyflawni ein rôl. Er mwyn cydnabod y datblygiadau arloesol a'r newidiadau a welwyd mewn darpariaeth gofal iechyd yn ystod y pandemig, byddwn yn gweithio gyda chi i ddatblygu dulliau newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd lle bydd y newidiadau hyn yn cael eu mabwysiadu yn yr hirdymor.

Mae ein rhaglen o waith adolygu yn parhau yn ystod 2021-22 wrth i ni gwblhau ein hadolygiad cenedlaethol o atal argyfyngau iechyd meddwl yn y gymuned ac adolygiad o'n canfyddiadau hanesyddol yngylch rheoli meddyginaethau. Byddwn hefyd yn cynnal adolygiadau lleol â phwyslais penodol lle bo angen, gan gynnwys adolygiad lleol o Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, a fydd yn ystyried diogelwch, urddas, llesiant a phrofiad cyffredinol cleifion sy'n aros mewn ambiwlansys ar safleoedd adrannau achosion brys ysbytai. Byddwn hefyd yn pennu'r ffordd ymlaen ar gyfer ail gam ein hadolygiad cenedlaethol o wasanaethau mamolaeth. At hynny, byddwn yn ceisio datblygu rhaglen adolygu sy'n ystyried y risgiau a'r heriau sy'n wynebu gwasanaethau iechyd wrth iddynt ddechrau adfer ar ôl y pandemig. Byddwn yn parhau i wella'r ffordd rydym yn mynd ar drywydd ein hadolygiadau, er mwyn deall effaith ein gwaith a'r gwelliannau a wnaed. Bydd hyn yn cynnwys ymgymryd â gwaith dilynol mewn nifer o feisydd gan gynnwys ein hadolygiadau cenedlaethol o wasanaethau mamolaeth (cam un), trefniadau ar gyfer rhyddhau cleifion o'r ysbyty, camddefnyddio sylweddau a gofal integredig: canolbwytio ar gwympiadau.

Bydd llawer ohonoch yn gyfarwydd â'r broses Gwasanaeth sy'n Peri Pryder a ddefnyddir gan AGIC fel rhan o'i phroses gorfodi ac uwchgyfeirio ar gyfer gofal iechyd annibynnol. Rydym yn bwriadu mynd ati i ffurfioli'r broses hon ar gyfer gwasanaethau'r GIG eleni. Diben hyn yw sicrhau ein bod yn gweithredu mewn ffordd dryloyw lle na chaiff safonau eu cyrraedd dro ar ôl tro neu lle deuir o hyd i fethiannau sylweddol yn ansawdd y gofal a roddir.

Byddwn hefyd yn ceisio sicrhau bod grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn cael eu cynnwys yn fwy yn ein gwaith, ac yn adeiladu ar ein gwaith gyda chyrff proffesiynol a lleoliadau gofal iechyd er mwyn datblygu eu dealltwriaeth o'n rôl a'n diben a sut y gallwn gydweithio i gefnogi gwelliant.

Yn olaf, yn unol â'r her a osodwyd ar gyfer arolygiaethau yn "Cymru lachach", byddwn yn adeiladu ar ein gwaith cydweithredol â sefydliadau eraill er mwyn parhau i ddatblygu dull systemau o arolygu modelau iechyd a gofal cymdeithasol integredig lleol.

Rwy'n gobeithio bod y diweddariad hwn yn ddefnyddiol ac edrychwn ymlaen at weithio gyda chi dros y flwyddyn i ddod.

Yn gywir

Alun Jones

Prif Weithredwr Dros Dro

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Routine onsite assurance work to resume

Dear provider,

HIW Strategy and Operational Plan 2021-22

Firstly, I would like to extend a thank you for the way in which your staff have engaged with our work over the past year through our concerns and notifications function, and during specific activities such as quality checks and inspections. As a result, we have been able to deliver our role effectively during a difficult period and provide you with rapid feedback on relevant areas to support improvement.

Resumption of routine onsite assurance activity

As you know, we have been predominantly conducting offsite assurance work since the start of the COVID-19 pandemic but have continued to undertake onsite site activity for instances where there is a clear high level of risk to patient safety which cannot be explored remotely. We have kept this position under review and, with a range of indicators showing positive signs with regard to COVID-19-induced pressures, we will lower our threshold for onsite activity and introduce more onsite assurance activity to our work programme from 26th April. We will look to recover our full routine onsite inspection programme from 1st July 2021. That said, we are fully evaluating the Quality Check approach that we have used during the pandemic so that we can assess its impact and potential usage over the longer term as part of our mix of assurance activity. We will be contacting a sample of providers separately on the Quality Check approach to ensure your views feed into the evaluation.

Our Strategy and Plan for 2021-22 and beyond

HIW has now published its [Strategy and Operational Plan for 2021-22](#) and I would like to bring a few key areas to your attention that may be of particular interest and where your engagement will be critical in delivering our role and developing our organisation.

March 2021 marked the end of our three-year strategy, Making a Difference. I am pleased with the progress we have made as an organisation in delivering our priorities and a full evaluation of that progress will be published in our annual report later in the year.

Given the unprecedented time that we are in, I have decided to release a one year strategy and operational plan to ensure our work remains focussed, appropriate and proportionate as services continue to deal with, and start to recover from, the pandemic. This will also enable us to properly evaluate our work over the last three years and conduct the right level

of engagement with the public and stakeholders in setting a new longer term strategy from 2022. Your views on how we have performed and how we might improve over the coming years is of great importance to me and I will be in touch shortly with regards how you can contribute those views.

For the year ahead our priorities will remain unchanged: to maximise our impact; to take action where standards are not met; to be more visible; and to develop our people and organisation to do the best possible job.

Our programme of work

Our work programme for the year will be driven by risk and seek to support the response and recovery of healthcare services from the pandemic. We will keep the situation under review and use the right blend of offsite and onsite assurance work to deliver our role. In recognition of the innovation and change that took place in healthcare provision during the pandemic we will work with you to develop new approaches to assurance where these changes are to be adopted long term.

Our programme of review work continues into 2021-22 with the completion of our national review of mental health crisis prevention in the community and a review of our historical findings on medicines management. We will also undertake focused local reviews where necessary, including a local review of WAST that will consider the safety, dignity, wellbeing and overall experience of patients whilst waiting in ambulances at hospital emergency departments. We will also make a decision on the way forward for phase two of our national review of maternity services. Additionally, we will seek to develop a review programme that takes into consideration the risks and challenges facing health services as they recover from the pandemic. We will continue to improve how we follow-up on our reviews, to understand the impact of our work and what improvements have been made. This will include undertaking follow-up work on a number of areas including our national reviews of maternity services (phase one), patient discharge from hospital, substance misuse and integrated care: focus on falls.

Many of you will be familiar with the Service of Concern process HIW uses as part of its enforcement and escalation process for independent healthcare. We plan to formalise this process for NHS services during the course of this year. This is intended to ensure transparency of our approach where standards are repeatedly not being met or where we find significant failings in the quality of care.

We will also seek to increase the inclusion of under-represented groups in our work as well as build on our work with professional bodies and healthcare settings to develop their understanding of our role and purpose, and how we can work together to support improvement.

Finally, in line with the challenge set out for inspectorates in “A Healthier Wales”, we will build on our joint working with other organisations to further develop a systems approach to the inspection of local integrated models of health and social care.

I hope you have found this update useful and we look forward to working with you over the coming year.

Yours sincerely

Alun Jones

Interim Chief Executive

Healthcare Inspectorate Wales

Our mailing address is:
Healthcare Inspectorate Wales
Rhydycar Business Park
Merthyr Tydfil
CF48 1UZ

*Hawlfrain y Goron © 2021 Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC). Cedwir pob hawl.
Copyright © 2021 Healthcare Inspectorate Wales, All rights reserved.*

Eisiau newid sut rydych chi'n derbyn y negeseuon e-bost hyn?

[Eich dewisiadau](#) | [Dad-danysgrifiwch](#) | [Help](#)

Want to change how you receive these emails?

[Manage Subscriptions](#) | [Unsubscribe All](#) | [Help](#)

I dderbyn diweddarriadau / Receive Updates

[Rhowch eich cyfeiriad e-bost](#) [Mynd / Go](#)

Share Bulletin



Powered by



[Privacy Policy](#) | [Cookie Statement](#) | [Help](#)